**Adroddiad i'r:** **Cyfarfod Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **28 Gorffennaf 2015**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Julian Thompson Hill / Jackie Walley**

**Awdur yr Adroddiad:** **Jackie Walley / Pennaeth Cefnogaeth Cwsmer ac Addysg.**

**Teitl: Dileu Trethi Busnes**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddileu trethi busnes ar gyfer cwmnïau lle na all camau adennill barhau am eu bod naill ai wedi dirwyn i ben neu eu diddymu. Mae'r balansau sy'n ddyledus wedi gorfod cael eu cyfrif yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac ar ffurflenni statudol i Lywodraeth Cymru ers tro.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofynnir am benderfyniad i ddileu ôl-ddyledion trethi busnes na ellir eu hadennill.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Dileu'r Trethi Busnes na ellir eu hadennill a ddangosir yn atodiad 1.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ddinbych (CSDd) dan ddeddfwriaeth i weinyddu a chasglu Trethi Busnes ar ran y llywodraeth ganolog. Mae bil blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn darparu 10 rhandaliad misol i fusnesau dalu. Bydd methu gwneud taliad yn arwain at roi nodiadau atgoffa, rhybuddion terfynol a gwysion i fynychu Llys Ynadon.

Yn y llys Ynadon gofynnodd CSDd am orchmynion atebolrwydd ym mhob un o'r achosion isod a fe'u rhoddwyd. Mae'r gorchymyn atebolrwydd yn rhoi awdurdod i Sir Ddinbych gymryd camau adennill mwy trylwyr. Y diwrnod ar ôl rhoi atebolrwydd, bydd yr holl gyfrifon yn cael eu rhoi i'r beili i'w casglu oni bai bod y busnes wedi gwneud trefniant ymlaen llaw ac yn talu.

Ym mhob un o'r achosion hyn cafodd beilïaid eu cyfarwyddo i gasglu, ond wedi methu gan fod y cwmnïau wedi eu dileu neu yn syml rhoi'r gorau i fasnachu a diflannu.

Aeth y cwmni cyntaf ORL Ltd i'r wal yn 2014, canfu ymchwiliadau dilynol gan y Gwasanaeth Ansolfedd bod rhwymedigaethau eithriadol o £938,136 a dim asedau i wneud unrhyw daliadau yn erbyn dyledion hyn. Rhoddwyd gwybod i'r

holl gredydwyr ansicredig, gan gynnwys CSDd, na fyddai unrhyw daliad difidend yn cael ei wneud.

Rhoddodd yr ail gwmni 'Internacionale Ltd' y gorau i weithredu ym mis Chwefror 2014 ac fe'i rhoddwyd yn nwylo'r meddianwyr. Rhoddom yr holl wybodaeth berthnasol i'r gweinyddwyr. Ym mis Ebrill 2014, cadarnhaodd y Gweinyddwyr nad oedd unrhyw obaith o ddifidend, ac fel y cyfryw nid oedd unrhyw debygolrwydd o unrhyw daliad o'r ddyled Trethi Busnes.

Tabl 1: Crynodeb o achosion o ddileu

| Enw'r Cwmni | Blwyddyn Ariannol | Swm |
|---|---|---:|
| ORL Limited | 2013/14 | £30,021.44 |
| ORL Limited | 2014/15 | £26,941.58 |
| Internacionale Ltd | 2013/14 | £23,268.73 |
| Cyfanswm | | £80,231.75 |

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yw hyn yn berthnasol gan ei fod yn ofyniad deddfwriaethol i reoli incwm a dyledion fel rhan o weinyddiaeth Trethi Busnes.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Gan fod yr incwm Trethi Busnes yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Genedlaethol mae unrhyw ddyledion drwg yn cael eu bodloni gan y gronfa, fel y cyfryw nid oes unrhyw gost i CSDd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid yw hyn yn berthnasol.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Ddim yn berthnasol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Gan fod yr incwm Trethi Busnes yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Genedlaethol mae unrhyw ddyledion drwg yn cael eu bodloni gan y gronfa, ac fel y cyfryw nid oes unrhyw gost i CSDd. Gellir cadarnhau bod prosesau priodol wedi'u dilyn, ac nid oes dim gobaith i'r dyledion gael eu had-dalu.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Drwy brosesu prydlon achosion ar gyfer eu dileu rydym yn lleihau'r effeithiau llif arian i CSDd, o ran taliadau Trethi Busnes i'r Gronfa Genedlaethol a lleihau ein lefelau cyfraniad, yn unol â'r ddyled gasgladwy.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'r pŵer i wneud y penderfyniad yn cael ei gynnwys yn Rheolau Sefydlog Ariannol Sir Ddinbych o dan Adran 25.